

Rhydaman

STRATEGAETH CREU LLEOEDD

Mawrth 2026

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire
County Council

Cynnwys

Cyflwyniad **1**

Ynglŷn â Strategaethau Creu Lleoedd 2

Y Dull 3

Crynodeb **4**

Ystyriaethau pwysig **8**

Tueddiadau cyfredol 9

Lleoliad **12**

Yr amgylchfyd cyhoeddus **18**


Symudiad **22**

Cymysgedd o ddefnyddiau **26**

Hunaniaeth **30**

Pobl a chymuned **34**

Newid ar waith **54**





Cyflwyniad

Ym mis Medi 2025 aeth Cyngor Sir Caerfyrddin ati i ddatblygu strategaethau creu lleoedd ar gyfer tair prif dref y Sir. Mae creu lleoedd yn ganolog i ymagwedd Llywodraeth Cymru at gynllunio. Mae creu lleoedd yn helpu i lunio datblygiad, yn hytrach na'i gymeradwyo yn unig, ac mae'n ceisio cynnwys cymunedau mewn ffordd ystyrlon. Mae hefyd yn helpu i greu dull cydweithredol rhwng partneriaid sy'n ceisio gweithio mewn lle. Nid yn unig y mae'n canolbwyntio ar adeiladau, ond hefyd ar sut y mae pobl yn symud o gwmpas y lle a'r hyn sy'n peri eu bod eisiau treulio amser yno.

Bydd y cynllun creu lleoedd hwn yn cefnogi prif randdeiliaid Rhydaman i ymgeisio am gyllid gan gyrff ariannu gan gynnwys Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU. Bydd gan bob un o randdeiliaid Rhydaman ran i'w chwarae wrth gyflwyno'r cynllun creu lleoedd hwn.


Ynglŷn â Strategaethau Creu Lleoedd

Mae creu lleoedd yn ymwneud â chreu lleoedd iach, cynaliadwy sy'n cefnogi llesiant cymunedol. Mae Comisiwn Dylunio Cymru wedi helpu i nodi'n glir beth yw creu lleoedd drwy ddatblygu Siarter Creu Lleoedd Cymru. Mae'r siarter yn nodi chwe egwyddor creu lleoedd sy'n helpu i gyfrannu at greu a chynnal lleoedd da. Y rhain yw:

Pobl a chymuned – mae'r gymuned leol yn ymwneud â datblygu cynigion. Mae anghenion, dyheadau, iechyd a llesiant pawb yn cael eu hystyried ar y dechrau. Caiff cynigion eu llunio i helpu i ddiwallu'r anghenion hyn yn ogystal â chreu, integreiddio a diogelu a/neu wella ymdeimlad o gymuned ac i hyrwyddo cydraddoldeb.

Hunaniaeth – mae rhinweddau cadarnhaol, unigryw lleoedd presennol yn cael eu gwerthfawrogi a'u parchu. Caiff nodweddion a chyfleoedd unigryw lleoliad, gan gynnwys treftadaeth, diwylliant, iaith, nodweddion ffisegol adeiledig a naturiol, eu nodi ac ymatebir iddynt.

Symudiad – rhoddir blaenoriaeth i gerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus er mwyn darparu dewis o ddulliau trafnidiaeth ac osgoi dibyniaeth ar gerbydau preifat. Mae llwybrau teithio llesol wedi'u cynllunio'n dda ac yn ddiogel yn cysylltu â'r rhwydwaith teithio llesol ehangach, ac mae gorsafoedd ac arosfannau trafnidiaeth gyhoeddus wedi'u hintegreiddio'n dda.



Ffynhonnell: Canllaw Creu Lleoedd Comisiwn Dylunio Cymru, wedi'i addasu o Sense of Place Model, Punter (1991)

Cymysgedd o ddefnyddiau – mae gan leoedd ystod o ddibenion sy'n darparu cyfleoedd ar gyfer datblygu cymunedol, twf busnesau lleol a mynediad at swyddi, gwasanaethau a chyfleusterau drwy gerdded, beicio neu drafnidiaeth gyhoeddus. Mae dwysedd datblygu a chymysgedd o ddefnyddiau a deiliadaeth yn helpu i gefnogi cymuned amrywiol ac amgylchfyd cyhoeddus bywiog.

Amgylchfyd cyhoeddus – mae strydoedd a mannau cyhoeddus wedi'u diffinio'n dda, maent yn groesawgar, yn ddiogel ac yn gynhwysol gyda hunaniaeth unigryw. Maent wedi'u cynllunio i fod yn gadarn ac yn addasadwy gyda thirwedd, seilwaith gwyrdd a draeniau cynaliadwy wedi'u hintegreiddio'n dda. Maent wedi'u cysylltu'n dda â lleoedd presennol ac yn hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol ac ystod o weithgareddau i bawb.

Lleoliad – dylai lleoedd dyfu a datblygu mewn modd sy'n defnyddio tir yn effeithlon, yn cefnogi ac yn gwella lleoedd presennol ac sydd wedi'i gysylltu'n dda. Mae lleoliad tai, cyflogaeth a hamdden a chyfleusterau eraill wedi'u cynllunio i helpu i leihau'r angen i deithio.

Nid yw strategaethau creu lleoedd yn uwchgynlluniau manwl, ac ni ddylent geisio bod. Efallai y byddant yn ystyried rhai materion dylunio manylach, ond y brif swyddogaeth yw darparu crynodeb clir o'r materion allweddol ar gyfer lle, cyfiawnhau pa faterion yw'r flaenoriaeth, a darparu atebion i'r materion hynny ar ffurf cyfres o gamau gweithredu. Dylid hefyd eu defnyddio fel fframwaith. Nid yw'r byd yn sefyll yn llonydd am oes cynllun, ac felly mae angen i gynlluniau fod â rhywfaint o hyblygrwydd. Dylent fod yn ystwyth, gan ddarparu fframwaith clir, ond heb fod yn rhy ragnodol o ran y manylion. Bydd rhai o'r camau gweithredu arfaethedig mewn cynllun creu lleoedd yn syml ac yn hawdd i'w cyflawni, a bydd rhai elfennau yn gofyn am ystyriaeth ddylunio fanwl ac ymgysylltu pellach i'w gwireddu.

Y dull

Penodwyd Urban Foundry Ltd i gyd-gynhyrchu'r strategaeth creu lleoedd ar gyfer Rhydaman gan weithio'n agos gyda'r gymuned leol a'r tîm Datblygu Economaidd yng Nghyngor Sir Caerfyrddin i gyflawni hyn. Mae Ffigur 1 yn dangos beth oedd hyn yn ei olygu.

Roedd y dull yn cynnwys rownd gyntaf o ymgynghori i ddeall beth oedd pobl yn meddwl oedd y materion a'r cyfleoedd yn Rhydaman. Cafodd hyn wedyn ei ddatblygu yn rhestr o ganlyniadau a chamau gweithredu â blaenoriaeth. Yna ymgynghorwyd ymhellach ynghylch y rhain a'u mireinio, yn gyntaf gyda Thasglu Rhydaman ac yna drwy ymgynghoriad cyhoeddus.



Ffigur 1 - Dull cydgynhyrchu o greu strategaeth creu lleoedd

Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon

Mae'r strategaeth yn dechrau gyda chrynodeb o'r ffactorau ehangach a fydd yn dylanwadu ar strategaeth creu lleoedd Rhydaman.

Yna mae gweddill yr adroddiad wedi'i strwythuro o amgylch pob thema creu lleoedd sy'n nodi:

- **Nawr** – beth yw'r problemau, yr heriau a'r cryfderau yn y dref
- **Ble** – beth mae pobl eisiau ei newid a'i gryfhau dros y misoedd a'r blynyddoedd i ddod
- **Sut** – beth yw'r camau ymarferol a fydd yn cyflawni'r newid hwn

Gall unrhyw un ddefnyddio'r ddogfen, ond mae wedi'i bwriadu fel set gyffredin o flaenoriaethau a chamau gweithredu ar gyfer partneriaid allweddol sy'n gweithio yn Rhydaman. Mae hyn yn cynnwys:

- **Tasglu Rhydaman** – darparu fframwaith ar gyfer meysydd blaenoriaeth i'r Tasglu ganolbwyntio arnynt
- **Cyngor Tref Rhydaman** – darparu tystiolaeth ar gyfer prosiectau a gweithgareddau a helpu i lywio'r gweithgareddau sydd â blaenoriaeth yn y dref
- **Cyngor Sir Caerfyrddin** – arwain y camau gweithredu sydd â blaenoriaeth ar gyfer y Tîm Trefi ac adrannau eraill y Cyngor
- **Y sector cymunedol a gwirfoddol** – darparu tystiolaeth a chefnogaeth ar gyfer prosiectau a rhaglenni
- **Busnesau, Datblygwyr a Buddsoddwyr** – dangos ble mae yna gefnogaeth gref i ddatblygiadau
- **Unigolion** – deall beth mae'r Tasglu a'r Cyngor Sir yn ei flaenoriaethu i wella'r dref a darparu fframwaith atebolrwydd ar gyfer y gwaith hwn

Bob blwyddyn bydd Cyngor Sir Caerfyrddin yn paratoi adroddiad ar gyfer Tasglu Rhydaman gan helpu i nodi'r cynnydd a wneir tuag at gyflawni'r strategaeth.

Crynodeb

Dyma grynodeb byr o'r sefyllfa bresennol, beth rydym am i effeithiau'r strategaeth hon fod, a sut y gallwn gyflawni'r effeithiau hynny. Mae'r adrannau sy'n dilyn yn y strategaeth hon yn rhoi mwy o fanylion am bob un o'r meysydd hyn.

Sut mae pethau

Mae Rhydaman yn ganolfan bwysig sydd â chysylltiadau da ag Abertawe a threftadaeth Gymreig a glofaol gref. Mae'n gymharol gryno, mae ganddi fannau gwyrdd gwerthfawr ar gyrion canol y dref, a chymuned sydd eisiau i'r dref lwyddo. Ond nid yw'r asedau yn y dref, yn bobl a lleoedd, yn gweithio gyda'i gilydd mor effeithiol ag y gallent.

Nid oes gan ganol y dref ymdeimlad clir o gyfeiriad, ac mae wedi mynd yn dameidiog yn ffisegol ac yn economaidd. Nid yw'r parc, yr orsaf reilffordd, Stryd y Cei, yr Arcêd a Stryd y Coleg fel pe baent wedi'u cysylltu'n dda â'i gilydd. Mae datblygiadau y tu allan i'r dref a mannau parcio am ddim wedi denu gweithgarwch i ffwrdd o ganol y dref. Mae yna hefyd adeiladau gwag a rhai sy'n cael eu tanddefnyddio mewn lleoliadau amlwg yn y dref.

Nid oes gan ganol y dref lawer o siopau, gweithgareddau hamdden a chyfleusterau cymunedol ychwaith na digon o lety preswyl. Cymharol ychydig sydd yno i bobl ifanc ei wneud, ac mae angen mwy o bethau i annog pobl i aros gyda'r nos. At ei gilydd mae pobl yn teimlo'n ddiogel yn ystod y dydd, ond gall y dref deimlo'n llai croesawgar ar ôl iddi dywyllu.

Mae symud o gwmpas yn her. Mae llawer o draffig yn mynd drwy'r Cross, mae rhai llwybrau cerdded a beicio yn teimlo'n anniogel, ac nid yw gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus bob amser yn aml neu wedi'u cysylltu'n dda. Mae'r rheilffordd yn ased pwysig ond mae wedi'i datgysylltu o ganol y dref.

Nid yw hunaniaeth unigryw Rhydaman yn weladwy. Nid yw'r hanes glofaol a'r iaith Gymraeg a'i diwylliant yn cael eu hadlewyrchu ym mannau cyhoeddus y dref, er bod pobl ar draws y dref yn cymryd rhan mewn rhaglen reolaidd o ddigwyddiadau.

Mae pobl hefyd yn teimlo nad ydyn nhw'n cael eu cynnwys yn ddigonol mewn penderfyniadau am ddyfodol y dref, ac y gallai partneriaid weithio gyda'i gilydd yn fwy effeithiol.

Beth ydym ni am ei wella

Canlyniadau lleoliad:

- Gwella cysylltedd drwy'r dref i gyd
- Mwy o weithredu ynghylch polisi cynllunio canol y dref yn gyntaf
- Mesur targedau a chynnydd yn well/gwella'r cyfathrebu amdanynt

Canlyniadau cymysgedd o ddefnyddiau:

- Gwella'r cymysgedd o ddefnyddiau yng nghanol y dref
- Mwy o ofodau gwag neu heb eu defnyddio'n ddigonol yn cael eu defnyddio'n weithredol
- Mwy o fusnesau newydd yn cael cymorth

Canlyniadau'r amgylchfyd cyhoeddus:

- Mwy o gyfleoedd i chwarae yn y strydlun
- Gwell arwyddion a chreu llwybrau diogel ar draws y dref
- Gwella'r rheolaeth o dir y cyhoedd
- Mwy o seilwaith gwyrdd ar hyd a lled y dref
- Cynnal a chadw a gwella mannau presennol

Canlyniadau symudiad:

- Gwella opsiynau i bobl sy'n cerdded a beicio
- Gwella trafnidiaeth gyhoeddus
- Gwella mynediad i'r rhwydwaith rheilffyrdd
- Gwella opsiynau ar gyfer danfoniadau yng nghanol y dref
- Lleihau pwysau ar y gyffordd ganolog
- Gwell mynediad i ganol tref Rhydaman ar gyfer teithiau arhosiad byr

Canlyniadau hunaniaeth:

- Mwy o ymdeimlad o falchder yn y dref
- Mwy o gyfleoedd i ddathlu treftadaeth y dref
- Cryfhau'r Gymraeg drwy weithgareddau creu lleoedd

Canlyniadau pobl a chymunedau:

- Mwy o gyfleoedd i bobl fod yn rhan o ddatblygiad y dref
- Mwy o ddefnydd o greu lleoedd i gael trefi iachach
- Cydgysylltu polisïau/prosesau mewnol y Cyngor yn well i gefnogi proses ddatblygu canol y dref

Sut y byddwn ni'n cyrraedd yno

Mae'r meysydd gwaith allweddol a nodwyd yn y strategaeth creu lleoedd yn cynnwys:

Ailgysylltu'r dref –

Mae'r strategaeth yn cefnogi prosiectau sy'n gwella cysylltiadau rhwng Stryd y Cei, yr arcêd a Stryd y Coleg. Mae hyn yn cynnwys gwell llwybrau, croesfannau ac arwyddion a chroesfannau i gerddwyr, ynghyd â chysylltiadau cerdded a beicio mwy diogel o'r ardaloedd cyfagos. Bydd parcio a danfoniadau hefyd yn cael eu rheoli'n fwy effeithiol.

Rhoi'r dref yn gyntaf –

Mae'r strategaeth yn nodi sut y dylai cynlluniau, buddsoddiad a phenderfyniadau'r dyfodol am adeiladau a gwasanaethau cyhoeddus ystyried eu heffaith ar ganol y dref. Bydd y dull hwn yn cynnwys ystyried sut y gallai penderfyniadau am ysgolion, cyfleusterau gofal iechyd ac asedau cyhoeddus eraill gefnogi canol y dref yn well. Bydd canllaw dylunio syml yn helpu i sicrhau bod datblygiadau newydd a gwelliannau i adeiladau yn cryfhau cymeriad, ansawdd a chysylltedd Rhydaman.

Ailddefnyddio adeiladau –

Bydd y strategaeth o gymorth i ystyried defnydd newydd ar gyfer adeiladau a safleoedd gwag a rhai sy'n cael eu tanddefnyddio. Mae yna hefyd gyfleoedd ar gyfer canolfan gymunedol a phobl ifanc, cefnogaeth i fusnesau newydd a mwy o weithgareddau i bobl eu gwneud gyda'r nos. Byddai 'mannau yn y cyfamser' yn darparu cyfleoedd i bobl roi cynnig ar syniadau newydd.

Creu mannau mwy gwyrdd a mwy croesawgar –

Mae'r blaenoriaethau a nodwyd yn y cynllun yn cynnwys gwyrddu Stryd y Cei, gwella Sgwâr y Farchnad, datblygu strategaeth seilwaith gwyrdd ar lefel tref a sicrhau bod y planhigion newydd a gaiff eu plannu yn cael eu cynnal a'u cadw'n iawn.

Cryfhau hunaniaeth Rhydaman –

Bydd gweithredu'r cynllun yn arwain at gryfhau hunaniaeth y dref gyda'i hanes glofaol, y Gymraeg, straeon lleol a chysylltiadau diwylliannol yn dod yn fwy gweladwy trwy arwyddion, celf gyhoeddus, digwyddiadau, adeiladau a hyrwyddo ar-lein. Bydd rhaglen barhaus o wyliau, marchnadoedd a gweithgareddau diwylliannol yn helpu i ddod â phobl i mewn i'r dref.

Rhoi cyfranogiad cymunedol ar waith –

Mae'r strategaeth yn cynorthwyo'r holl bartneriaid, gan gynnwys y gymuned, i weithio gyda'i gilydd i arwain gwahanol rannau o'r strategaeth. Bydd cynnydd tuag at wahanol elfennau yn cael ei fesur a'i adrodd yn flynyddol.

Ystyriaethau pwysig

Yn yr adran hon rydym yn nodi rhai tueddiadau byd-eang, cenedlaethol a lleol a fydd yn llywio'r strategaeth creu lleoedd. Cofiwch ein bod wedi darparu crynodeb syml o'r tueddiadau i helpu i esbonio'r cefndir y tu ôl i'r adroddiad hwn. Mae'r atodiad technegol yn cynnwys rhagor o fanylion, gan gynnwys y data a'r wybodaeth sy'n sail i'r tueddiadau hyn.

Tueddiadau cyfredol

Tueddiadau yn ymwneud â phobl

Yn gyffredinol, mae poblogaeth Sir Gaerfyrddin yn tyfu, ac mae hyn hefyd yn wir am Rydaman. Rhwng 2011 a 2021 cynyddodd poblogaeth Rhydaman 3%. Ond mae newidiadau wedi bod yn y ddemograffeg. Mae cyfran y bobl ifanc (15 oed ac iau) wedi gostwng 0.7% ac mae cyfran y bobl o oedran gweithio (16 i 64) wedi gostwng 1.9%. Mae nifer y bobl hŷn (65+ oed) wedi cynyddu 2.6%. Mae nifer y siaradwyr Cymraeg yn gostwng, o 43.9% yn 2011 i lawr i 39.9% yn 2021.

Mae iechyd pobl Sir Gaerfyrddin yn gwella'n gyffredinol. Yn 2021, dywedodd 47.2% o drigolion Sir Gaerfyrddin bod eu hiechyd yn "dda iawn", gan gynyddu o 45.7% yn 2011. Tra bod y rheiny oedd yn disgrifio eu hiechyd fel "gwael" wedi gostwng o 6.0% i 5.2%. Gostyngodd canran y bobl y nodwyd eu bod yn anabl ac wedi'u cyfyngu i raddau helaeth yn Sir Gaerfyrddin o 13.0% i 10.5%, tra gostyngodd canran y bobl y nodwyd eu bod yn anabl ac wedi'u cyfyngu ychydig o 11.4% i 11.1%. Mae'r data presennol ar gyfer Sir Gaerfyrddin yn awgrymu ychydig o gwymp yn y disgwyliad oes. Mae 51% o bobl yn Rhydaman yn economaidd weithgar ac mae yna lefelau isel o ddiweithdra, sef dim ond 2%.

Mae'r rhain yn dueddiadau pwysig. Mae'n helpu i ddangos bod Rhydaman yn tyfu, ond mae hefyd yn newid. Mae pobl yn hŷn ond mae iechyd yn gwella, ac mae nifer y siaradwyr Cymraeg yn gostwng. Mae lefelau diweithdra yn isel ac mae lefelau gweithgarwch economaidd yn parhau i fod yn sefydlog. Mae hyn yn bwysig i waith creu lleoedd gan ei fod yn pwysleisio'r pwysigrwydd o gryfhau'r iaith Gymraeg trwy'r holl weithgareddau, a chydnabod sut mae'r boblogaeth yn newid dros amser.

Tueddiadau o amgylch canol trefi

Yn Rhydaman ceir cyfuniad rhesymol o siopau annibynnol cenedlaethol a siopau annibynnol bach sy'n gyson â threfi o'r un maint. Ond roedd Astudiaeth Adwerthu Sir Gaerfyrddin 2023 yn pwysleisio dyhead ymysg defnyddwyr canol tref Rhydaman am fwy o siopau annibynnol gyda mwy o opsiynau gwell nad ydynt yn siopau bwyd, a bod gormod o siopau gwag yno.

Mae Llywodraeth Cymru yn gefnogol iawn i ddulliau 'canol y dref yn gyntaf' ac yn rhoi pwyslais ar greu lleoedd, ond ceir pwysau parhaus gan ddatblygiadau y tu allan i'r dref (rhai ohonynt yn newydd, rhai wedi'u hadeiladu yn y gorffennol). Hefyd, ceir costau cyfalaf defnyddiau a llafur sydd wedi cynyddu'n sylweddol, ac sy'n gwneud gwaith datblygu'n fwy costus, a phwysau chwyddiant ar gostau refeniw staffio a'r cynnydd mewn Yswiriant Gwladol a delir gan Gyflogwyr, a chynnydd sylweddol mewn gorbenion eraill (yn arbennig cyfleustodau) wedi'i gyfuno â lleihau neu ddileu rhyddhad ardrethi busnes pan ddaeth Covid i ben.

Ar yr un pryd, mae pŵer prynu yn yr economi wedi'i wasgu ar gyfer unigolion ond hefyd i lawer o gwmnïau a chyrff sector cyhoeddus. Y prif golledion yn sgil Covid oedd y cwmnïau cenedlaethol mawr, a oedd yn amlwg iawn ar y stryd fawr mewn trefi a dinasoedd mwy. Mae'n annhebygol iawn y bydd cwmnïau cenedlaethol eraill yn dod i gymryd eu lle. Mae hyn yn creu effeithiau niferus, gan gynnwys canfyddiadau negyddol ynghylch sut y caiff trefi eu gweld a cholli siopau stryd fawr a fyddai'n denu ymwelwyr.

Bum mlynedd ar ôl i'r pandemig Covid-19 newid y ffordd rydym yn gweithio, yng Nghymru mae 42% o weithwyr yn gweithio gartref o leiaf peth o'r amser[1]. Mae mwy o bobl yn gweithio gartref yn barhaus ac mae llawer mwy yn gweithio mewn dull hybrid. Polisi presennol Llywodraeth Cymru yw ceisio cael oddeutu 30% o'r gweithlu'n gweithio gartref ar unrhyw adeg i leihau traffig cymudwyr. Mae'n rhy gynnar i ddweud, ond er y bydd manteision amgylcheddol clir o wneud hyn, gall hefyd arwain at leihau'r galw am yr economi leol iawn yng nghanol trefi

Ond ar draws Cymru a'r DU, mae gwaith ymchwil sylweddol yn dangos sut yr hoffem dreulio ein hamser a'r effaith a gaiff ar ganol trefi. Mae'n helpu i ddangos bod y trefi sy'n croesawu ymagwedd ddefnydd cymysg a ganolbwyntiai ar y gymuned yn gwrthod y tueddiadau cenedlaethol mewn perthynas â chanol trefi sy'n dirywio. Mae'r ymchwil hefyd yn dangos bod defnyddwyr modern eisiau profiad pan fyddan nhw'n mynd i'r dref, nid mynd ar neges yn unig. Efallai y byddant yn cael coffi, yn gwneud bach o siopa, yn gweld arddangosfa, ac yn cwrdd â ffrindiau i gyd mewn un daith[2]. Mae canol trefi sy'n hwyluso'r gweithgareddau amrywiol hyn yn profi teyrngarwch a chynnydd yn yr amser aros.

Mae'r tueddiadau hyn yn cyfeirio at newid yn y ffordd yr ydym yn defnyddio ein hamser hamdden a'r hyn a hoffwn ei gael gan ein canol trefi. Maent yn tyfu'n gyrchfannau y mae pobl yn mynd atynt am nifer o resymau yn ystod un ymweliad. Mae hyn yn bwysig i greu lleoedd gan fod angen i'r strategaeth ystyried nid yn unig sut mae pobl yn defnyddio Rhydaman nawr, ond sut mae hynny'n debygol o newid yn y tymor canolig i'r tymor hir.

1 https://www.gov.wales/sites/default/files/pdf-versions/2026/2/3/1770823261/remote-working-national-survey-wales-april-2024-march-2025.pdf
2 https://retail-focus.co.uk/community-hubs-shopping-centres-of-the-future/#:~:text=She%20notes%20research%20by%20Gensler%2C,day%20such%20as%20cookery%20classes

Tueddiadau ehangach

Bydd penderfyniadau a wneir yn genedlaethol yn dylanwadu ar allu Cyngor Sir Caerfyrddin a phartneriaid eraill i gyflawni'r strategaeth creu lleoedd. Mae llawer o'r cyd-destun strategol a ddarperir gan Lywodraeth Cymru yn cefnogi'r ethos y tu ôl i greu lleoedd. Yn benodol, mae Llywodraeth Cymru yn rhoi ffocws cryf ar ddatblygu cynaliadwy sydd wedi'i ymgorffori yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015). Mae'r ddeddf hon yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gyflawni datblygu cynaliadwy ac i wneud hynny trwy ddilyn pum ffordd o weithio:

- **Hirdymor** – meddwl y tu hwnt i atebion byrdymor
- **Atal** – atal problemau cyn iddynt ddigwydd
- **Integreiddio** – cyfuno gwahanol amcanion
- **Cydweithio** – gweithio gyda sefydliadau eraill
- **Cyfranogiad** – cynnwys pobl a chymunedau

Mae hyn wedi'i ymgorffori'n llawn yn null Cyngor Sir Caerfyrddin o lunio'r strategaeth creu lleoedd hon.

Fodd bynnag, efallai y bydd digwyddiadau byd-eang ehangach yn ei gwneud hi'n anoddach cynnal yr amgylchedd cefnogol hwn ar gyfer creu lleoedd cynaliadwy yn y blynyddoedd i ddod. Cafodd y strategaethau blaenorol ar lefel tref eu creu o ganlyniad uniongyrchol i'r pandemig Covid-19. Cyn y digwyddiad byd-eang hwnnw yr oedd argyfwng ariannol 2008, ac yn dilyn Covid-19 mae rhyfeloedd wedi bod yn Wcráin a'r Dwyrain Canol.

Mae'r digwyddiadau hyn yn cael effaith uniongyrchol ar greu lleoedd. Maent yn effeithio ar y straen sydd ar aelwydydd oherwydd costau byw a phrisiau tanwydd cynyddol. Maent yn effeithio ar barodrwydd busnesau i gymryd risg a gallant ei gwneud hi'n anoddach cynnal y canol trefi bywiog y mae'r strategaeth hon yn ceisio eu cefnogi.

Byddant hefyd yn effeithio ar faint o gynnydd a wneir dros ba gyfnod amser gyda'r strategaeth. Mae hyn yn rhan bwysig o ddeall creu lleoedd, mae'n ddull lleol ond mae'n uniongyrchol gysylltiedig â digwyddiadau ehangach ac amgylchedd strategol sy'n newid yn barhaus.

Lleoliad


Ar gyfer y thema lleoliad, mae gennym ddiddordeb mewn deall pa mor dda ydym am sicrhau bod yr holl ddatblygiadau yn gwneud y lle yn well a deall a oes gennym y cymysgedd cywir o ddatblygiadau yn Rhydaman.

Mae'r egwyddorion creu lleoedd yn diffinio'r maes hwn fel:
Dylai lleoedd dyfu a datblygu mewn modd sy'n defnyddio tir yn effeithlon, sy'n cefnogi ac yn gwella lleoedd presennol ac sydd wedi'i gysylltu'n dda. Mae lleoliad tai, cyflogaeth a hamdden a chyfleusterau eraill wedi'u cynllunio i helpu i leihau'r angen i deithio.

Beth wnaethom ei ddarganfod

Drwy'r ymgynghoriad, at ei gilydd cafodd 'Lleoliad' sgôr o 3.8 allan o 10 yn Rhydaman

Mae'r dadansoddiad manylach o adborth pobl yn dangos bod pobl yn teimlo nad oes gan y dref gyfeiriad clir o ran ei dyfodol. Roedd hefyd yn dangos bod pobl yn teimlo nad oedd y dref yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth da nac yn cefnogi busnesau newydd, ac nad oedd yn gwasanaethu'r ardaloedd cyfagos yn dda.



Nododd yr ymgynghoriad a'n dadansoddiad ein hunain y pwyntiau allweddol canlynol:

- **Hwb** – Mae pobl yn cydnabod safle strategol Rhydaman ger yr M4, Bannau Brycheiniog ac fel canolbwynt i Ddyffryn Aman, ond teimlant nad yw hyn yn cael ei ddefnyddio i'w lawn botensial
- **Gwella llif** – Diffyg llif ac eglurdeb rhwng ardaloedd allweddol: mae Stryd y Cei, yr Arcêd, Stryd y Coleg, y parc a'r orsaf yn teimlo'n ddatgysylltiedig
- **Tu allan i'r dref** – mae pryder bod datblygiadau y tu allan i ganol y dref sydd â mannau parcio di-dâl yn denu gweithgarwch i ffwrdd o'r craidd hanesyddol
- **Cryfhau cysylltiadau** – Mae awgrymiadau i ailgysylltu'r dref â'i pharc a'r rheilffordd, ac i wella pyrth a golygfannau allweddol
- **Ffurf ofodol** – Mae ffurf ofodol y dref yn ddarniog, gyda rhai ardaloedd wedi'u diffinio'n wael, 'cefnau' adeiladau sy'n agored i niwed, a dwysedd preswyl isel

Nododd ein hadolygiad ein hunain a'r ymgynghoriad y canlyniadau creu lleoedd canlynol ar gyfer lleoli yn Rhydaman:

- Gwella cysylltedd ledled y dref
- Mwy o weithredu ynghylch polisi cynllunio canol y dref yn gyntaf
- Mesur targedau a chynnydd yn well/gwella'r cyfathrebu amdanynt


Roedd yr adborth a gawsom drwy'r ymgynghoriad yn cynnwys:


"Mae'n ymddangos bod penderfyniadau cynllunio diweddar yn denu ymwelwyr i ffwrdd o'r siopau a'r busnesau annibynnol yng nghanol y dref"

"Hyrwyddo lleoliad Rhydaman fel man canolog ar gyfer cerdded/ beicio; twristiaeth addas i deuluoedd"

"Gwella pyrth i Rydaman. Gwella golygfannau cyhoeddus allweddol. Hyrwyddo/ailosod Rhydaman yn strategol er mwyn gwella ffyniant. Mae angen i gerdded a beicio i'r canol ac oddi yno fod yn fwy hyfyw a diogel. Bywiogi'r canol a'i gwneud mor hawdd â phosibl i siopwyr fod eisiau dod i wario arian/bwyta yno. Efallai bydd y siopau eisiau aros wedyn."

"Defnyddio mannau sy'n cael eu tanddefnyddio ar gyfer marchnadoedd a digwyddiadau cymunedol"


URBAN
FOUNDRY
Blaen gweithgar
Cefnau sy'n agored i niwed/ffryntiad marw
AMMANFORD
Bowling Green
Tennis Courts
Cricket Ground
Ammanford Park
Recreation Ground
Shoppers World
Car Park
Carregamman Car Park / Maes Pardo Carregamman
Burial Ground
Police Station
Superstore
Betws Park
Pont y Betws
© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2025. Arolwg Ordnans 100023377
© Crown Copyright and database rights 2025. Ordnance Survey 100023377


URBAN
FOUNDRY
Mannau gwyrdd
Meysydd parcio cyhoeddus
Ammanford Park
Cricket Ground
Tennis Courts
Bandstand
Bowling Green
Play Area
Pond
Shoppers World
Arcade
Clinic
Castle Reach
Castle House
Burial Ground
Chapel
Hall
Tel Ex
Amb Sta
F Sta
Tower
Superstore
Police Station
Tank
ESS
Weir
Glanrhyd
Pont y Betws
Library
St Michael
Club
Post
PO
PH
PC
LB
Shelter
Cemetery
Church
Cottage
Stryd Margred / Margaret Street
Stryd y Neuadd / Hall Street
Wind Street
Ffordd William Walker
Ffordd Isgenwen / Isgenwen Road
Lon y Bedyrdd
Carregaman
Walker
A474 Heol Brewllet
El Sub Sta
TCB
SP
LC
36.3m
38.1m
41.7m
42.5m
43.8m
45.7m
47.3m
41.0m
37.9m
39.6m
43.0m
36.7m
37.4m
35.1m
© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2025. Arolwg Ordnans 100023377
© Crown Copyright and database rights 2025. Ordnance Survey 100023377

Yr amgylchfyd cyhoeddus

Ar gyfer thema'r amgylchfyd cyhoeddus mae gennym ddiddordeb mewn deall pa mor ddiogel mae mannau cyhoeddus yn teimlo yn Rhydaman, pa mor wyrdd yw'r dref a pha mor dda mae'r mannau cyhoeddus yn teimlo fel 'mannau pobl'.


Mae'r egwyddorion creu lleoedd yn diffinio'r maes hwn fel:

Amgylchfyd cyhoeddus – mae strydoedd a mannau cyhoeddus wedi'u diffinio'n dda, maent yn groesawgar, yn ddiogel ac yn gynhwysol gyda hunaniaeth unigryw. Maent wedi'u cynllunio i fod yn gadarn ac yn addasadwy gyda thirwedd, seilwaith gwyrdd a draeniau cynaliadwy wedi'u hintegreiddio'n dda. Maent wedi'u cysylltu'n dda â lleoedd presennol ac yn hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol ac ystod o weithgareddau i bawb.

Beth wnaethom ei ddarganfod

Drwy'r ymgynghoriad, at ei gilydd cafodd 'Yr amgylchfyd cyhoeddus' sgôr o 4.1 allan o 10 yn Rhydaman

Mae'r dadansoddiad manylach yn dangos bod pobl yn teimlo bod y dref yn teimlo'n ddiogel yn ystod y dydd ond bod hyn yn newid wrth iddi dywyllu. Mae hefyd yn dangos bod pobl yn teimlo y byddai'r dref yn elwa o gael mwy o wyrddni ac y gallai fod yn fwy deniadol.



Nododd yr ymgynghoriad y pwyntiau allweddol canlynol:

- **Cynnal a chadw** – Disgrifiwyd y dref yn frwnt a dirywiedig gan sawl un, gydag adeiladau brwnt, palmentydd gwael a phlanhigion wedi'u hesgeuluso
- **Mannau allweddol** – Cyfle i ail-ddylunio mannau allweddol i fod yn fwy gwyrdd, yn fwy golau ac yn fwy croesawgar gyda mwy o seddi ac i sicrhau y caiff y buddsoddiad ei gynnal, nid dim ond wynebau newydd
- **Gwyrddni** – Dyhead am fwy o wyrddni, coed, blodau, seddi a biniau, a chynnal a chadw'r asedau presennol yn well
- **Mannau croesawgar** – Pryderon o ran peryglon baglu, wynebau llithrig a diffyg meinciau ar gyfer pobl hŷn

Nododd ein hadolygiad ein hunain a'r ymgynghoriad y canlyniadau creu lleoedd canlynol ar gyfer yr amgylchfyd cyhoeddus yn Rhydaman:

- Mwy o gyfleoedd i chwarae yn y strydlun
- Gwell arwyddion a chreu llwybrau diogel ar draws y dref
- Gwella'r modd y caiff yr amgylchfyd cyhoeddus ei reoli
- Mwy o seilwaith gwyrdd ar hyd a lled y dref
- Cynnal a chadw a gwella mannau presennol

Roedd yr adborth a gawsom drwy'r ymgynghoriad yn cynnwys:

"Sicrhau bod gwaith cynnal a chadw wedi'i drefnu ar gyfer unrhyw blanhigion neu goed fel nad ydynt yn cael eu plannu a'u gadael i farw"

"Mae wir angen glanhau'r dref. Mae'r adeiladau'n frwnt ac mae angen eu paentio"

Symudiad

Ar gyfer y thema symudiad mae gennym ddiddordeb mewn deall pa mor hawdd yw hi i gyrraedd Rhydaman, pa mor hawdd yw hi symud o gwmpas y dref, ac a yw hyn yn haws neu'n anoddach yn dibynnu ar lefel symudedd. Mae gennym ddiddordeb hefyd mewn deall sut mae'r gwahanol rannau o'r system drafnidiaeth yn cysylltu gyda'i gilydd.


Mae'r egwyddorion creu lleoedd yn diffinio'r maes hwn fel:

Rhoddir blaenoriaeth i gerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus er mwyn darparu dewis o ddulliau trafnidiaeth ac osgoi dibyniaeth ar gerbydau preifat. Mae llwybrau teithio llesol wedi'u cynllunio'n dda ac yn ddiogel yn cysylltu â'r rhwydwaith teithio llesol ehangach, ac mae gorsafoedd ac arosfannau trafnidiaeth gyhoeddus wedi'u hintegreiddio'n dda.

Beth wnaethom ei ddarganfod

Drwy'r ymgynghoriad, at ei gilydd cafodd 'Symudiad' sgôr o 3.6 allan o 10 yn Rhydaman

Mae'r dadansoddiad manylach yn dangos bod pobl yn ei chael hi'n hawdd dod o hyd i'w ffordd o gwmpas a'u bod yn teimlo'n ddiogel yng nghanol y dref. Mae beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus yn feysydd i'w gwella.



Nododd yr ymgynghoriad y pwyntiau allweddol canlynol:

- **Beicio** – Pryderon ynghylch diogelwch beicio, pobl ifanc yn beicio mewn mannau i gerddwyr, a'r angen am lwybrau cerdded mwy diogel a chroesfannau gwell. Nid yw'r Cross yn lle sy'n ystyrlon o gerddwyr gan fod llawer o draffig yn mynd drwyddo
- **Trafnidiaeth gyhoeddus** – Ystyrir bod y drafnidiaeth gyhoeddus yn wael, yn anfynych ac wedi'i chysylltu'n wael (yn enwedig i Gaerfyrddin, Llanelli, Abertawe a phentrefi). Nid yw'n hawdd cymudo o Rydaman ar hyn o bryd
- **Parcio ceir** – Galwadau am leoedd parcio di-dâl neu ratach (yn enwedig ar gyfer arosiadau byr) a mwy o leoedd parcio i bobl anabl yn agos i'r canol
- **Rheoli traffig** – Mae awgrymiadau penodol ynghylch rheoli traffig yn cynnwys ailagor neu ail-gyflunio Stryd y Cei, dileu neu orfodi parcio ar y stryd, newidiadau i gyffyrdd, bws gwennol / bws mini trefi bach
- **Rheilffordd** – mae'r groesfan reilffordd yn gyfle a gellid ei gwella

Nododd ein hadolygiad ein hunain a'r ymgynghoriad y canlyniadau creu lleoedd canlynol ar gyfer symudiad yn Rhydaman:

- Gwella opsiynau i bobl sy'n cerdded a beicio
- Gwella trafnidiaeth gyhoeddus
- Mwy o fynediad i'r rhwydwaith rheilffyrdd
- Gwella opsiynau ar gyfer danfoniadau yng nghanol y dref
- Lleihau pwysau ar y gyffordd ganolog
- Gwella mynediad i ganol tref Rhydaman ar gyfer arosiadau byr

Roedd yr adborth a gawsom drwy'r ymgynghoriad yn cynnwys:

"Rwy'n gallu cerdded yn ddiogel i bob rhan o'r dref – gan gynnwys mynd am dro braf drwy'r parc"

"Rwy'n teimlo'n ddiogel ac yn cerdded i bobman"

"Nid yw symudiad cerddwyr at ganol y dref yn ddiogel: palmentydd cul lle mae'n anodd i ddau gerddwr basio oherwydd perthi/coed isel, ceir/faniau wedi parcio ar y palmant. Gan ychwanegu'r diffyg seilwaith ffyrdd i blant fynd ar feic/sgwter i'r ysgol yn ddiogel, mae plant yn defnyddio'r palmentydd i feicio i'r ysgol."

Cymysgedd o ddefnyddiau

Ar gyfer y thema cymysgedd o ddefnyddiau, mae gennym ddiddordeb mewn deall pa mor dda yw Rhydaman fel cymysgedd o le i fyw ynddo, dysgu, gweithgareddau diwylliannol/hamdden a swyddogaethau swyddfa ochr yn ochr ag adwerthu.


Mae'r egwyddorion creu lleoedd yn diffinio'r maes hwn fel:

Mae gan leoedd ystod o ddibenion sy'n darparu cyfleoedd ar gyfer datblygu cymunedol, twf busnesau lleol a mynediad at swyddi, gwasanaethau a chyfleusterau drwy gerdded, beicio neu drafnidiaeth gyhoeddus. Mae dwysedd datblygu a chymysgedd o ddefnyddiau a deiliadaeth yn helpu i gefnogi cymuned amrywiol ac amgylchfyd cyhoeddus bywiog.

Beth wnaethom ei ddarganfod

Drwy'r ymgynghoriad, at ei gilydd cafodd 'Cymysgedd o ddefnyddiau' sgôr o 3.9 allan o 10 yn Rhydaman

Mae'r dadansoddiad manylach yn dangos bod pobl yn teimlo'n gryf nad oes gan y dref gymysgedd da o gyfleoedd sy'n caniatáu i amrywiaeth o bobl ddefnyddio canol y dref ar wahanol adegau o'r dydd. Thema allweddol yn yr ymgynghoriad drwyddo draw oedd y diffyg amrywiaeth yn yr arlwy adwerthu.



Nododd yr ymgynghoriad y pwyntiau allweddol canlynol:

- **Amrywiaeth** – teimlir yn gryf bod gormod o siopau barbwr, siopau fêps, caffis a siopau elusennau, a dim digon o adwerthu bob dydd neu adwerthu o ansawdd
- **Brandiau mwy** – Cafwyd llawer o sylwadau am amrywiaeth (dillad, esgidiau, chwaraeon, crefftau, tasgau'r cartref, bwyd, gwasanaethau banc) ac am siopau angori mawr (e.e Aldi, Primark, Sports Direct) ochr yn ochr â siopau annibynnol.
- **Hamdden a phobl ifanc** – Awydd mawr am gyfleusterau hamdden ac ar gyfer pobl ifanc: sinema, bowlio, chwarae meddal, canolfan hamdden i deuluoedd, theatr well, mwy o ddigwyddiadau, marchnadoedd a gweithgareddau gyda'r nos.
- **Adeiladau gwag** – Byddai llawer o bobl yn hoffi gweld adeiladau gwag yn cael eu hailddefnyddio (hen siop Co-op, Wilko, Poundland, banciau) ar gyfer defnyddiau hamdden cymysg, hybiau cymunedol, marchnadoedd ac unedau busnes bach
- **Tai** – Mae rhai yn cefnogi cael mwy o dai yng nghanol y dref

Nododd ein hadolygiad ein hunain a'r ymgynghoriad y canlyniadau creu lleoedd canlynol ar gyfer y cymysgedd o ddefnyddiau yn Rhydaman:

- Gwella'r cymysgedd o ddefnyddiau yng nghanol y dref
- Mwy o ofodau gwag neu heb eu defnyddio'n ddigonol yn cael eu defnyddio'n weithredol
- Mwy o fusnesau newydd yn derbyn cymorth

Roedd yr adborth a gawsom drwy'r ymgynghoriad yn cynnwys:

"Mwy o siopau annibynnol, llai o siopau trin gwallt a chaffis"

"Llawer o siopau gwag; rhenti yn rhy uchel i fusnesau newydd"

"Rwy'n credu bod Rhydaman yn darparu ar gyfer y rhan fwyaf o bethau - mae gennym gyfleusterau da mewn sawl ardal"

"Mae llawer gormod o siopau ac adeiladau masnachol gwag ym mhob ardal o amgylch y dref... Mae'r ardaloedd siopa... yn edrych yn anniben ac yn ddi-raen."

"Nid yw pobl yn gallu cael yr hyn maen nhw ei eisiau yn Rhydaman... mae'n shwd drueni."

Hunaniaeth

Ar gyfer y thema hunaniaeth, mae gennym ddiddordeb mewn deall beth yw nodweddion Rhydaman sy'n ei gwneud yn unigryw ac a yw Rhydaman yn gwneud y mwyaf o'r nodweddion hyn.


Mae'r egwyddorion creu lleoedd yn diffinio'r maes hwn fel:

Mae rhinweddau cadarnhaol, unigryw lleoedd presennol yn cael eu gwerthfawrogi a'u parchu. Caiff nodweddion a chyfleoedd unigryw lleoliad, gan gynnwys treftadaeth, diwylliant, iaith, nodweddion ffisegol adeiledig a naturiol, eu nodi ac ymatebir iddynt.

Beth wnaethom ei ddarganfod

Drwy'r ymgynghoriad, at ei gilydd cafodd 'Hunaniaeth' sgôr o 3.5 allan o 10 yn Rhydaman

Mae'r dadansoddiad manylach yn dangos bod pobl yn teimlo'n gryf y dylai'r dref wneud mwy i amddiffyn a hyrwyddo treftadaeth y dref. Mae'r ymgynghoriad yn awgrymu bod gan y dref hunaniaeth ond bod angen gwneud mwy i gryfhau hyn.



Nododd yr ymgynghoriad y pwyntiau allweddol canlynol:

- **Treftadaeth gref** – Mae pobl yn teimlo fod hunaniaeth Rhydaman yn wan neu'n cael ei cholli, er y dreftadaeth lofaol gref a'r diwylliant Cymraeg
- **Hanes a straeon lleol** – Mae dyhead i ddathlu'r iaith Gymraeg, hanes a straeon lleol (e.e. mwyngloddio, Twrch Trwyth, John Cale) trwy waith brandio, y celfyddydau a digwyddiadau
- **Cynnal treftadaeth** – Mae hefyd rhywfaint o ddicter a thristwch oherwydd esgeuluso adeiladau hanesyddol (Neuadd y Dref, yr hen lyfrgell, Banc Lloyds, yr hen swyddfa bost) a ystyrir yn symbolau o'r dref
- **Blaenoriaethu'r dref** – Mynegwyd pryderon am sut mae penderfyniadau fel adwerthu ar gyrion y dref a chau banciau'n erydu balchder ac yn atgyfnerthu ymdeimlad o ddirywio

Nododd ein hadolygiad ein hunain a'r ymgynghoriad y canlyniadau creu lleoedd canlynol ar gyfer hunaniaeth yn Rhydaman:

- Mwy o ymdeimlad o falchder yn y dref
- Mwy o gyfleoedd i ddathlu treftadaeth y dref
- Cryfhau'r Gymraeg drwy weithgareddau creu lleoedd

Roedd yr adborth a gawsom drwy'r ymgynghoriad yn cynnwys:

"Annog gweithgareddau celfyddydol a diwylliannol er mwyn denu pobl o du hwnt i Rydaman – a busnesau sy'n hyrwyddo cynhyrchion o Gymru"

"Mae ganddi hunaniaeth wan, er ei bod wedi'i thrwytho mewn hanes, y pyllau glo, y Twrch Trwyth [Chwedl Arthuraidd]."

"Mae gennym gymysgedd gwych o bensaernïaeth - mae'r arcêd yn un o'r uchafbwyntiau; defnyddio lliwiau ar adeiladau fel yn Llandeilo; mwy o arwyddion wedi'u paentio â llaw, llai o fyrddau plastig mawr"

"Mwy o dreftadaeth i'w gweld – tref lofaol – gadewch i ni fod yn falch o'n gorffennol"

Pobl a chymuned

Ar gyfer y thema pobl a chymuned, mae gennym ddiddordeb mewn pa mor dda yw'r partneriaid allweddol yn y dref am greu cyfranogiad cymunedol gwirioneddol fel proses barhaus.


Mae'r egwyddorion creu lleoedd yn diffinio'r maes hwn fel:

Mae'r gymuned leol yn ymwneud â datblygu cynigion. Mae anghenion, dyheadau, iechyd a llesiant pawb yn cael eu hystyried ar y dechrau. Caiff cynigion eu llunio i helpu i ddiwallu'r anghenion hyn yn ogystal â chreu, integreiddio a diogelu a/neu wella ymdeimlad o gymuned ac i hyrwyddo cydraddoldeb.

Beth wnaethom ei ddarganfod

Drwy'r ymgynghoriad, at ei gilydd cafodd 'Pobl a chymuned' sgôr o 3.8 allan o 10 yn Rhydaman

Mae'r dadansoddiad manylach yn dangos nad yw pobl yn teimlo eu bod yn ymwneud â dyfodol y dref, ond eu bod nhw'n weddol glir ynghylch sut i ymgysylltu ynghylch materion datblygu a materion eraill yn y dref.



Nododd yr ymgynghoriad y pwyntiau allweddol canlynol:

- **Ticio blychau** – Mae gan bobl ganfyddiad nad yw cynghorau'n gwrando arnynt, caiff ymgynghoriadau eu gweld fel ymarferion ticio blychau, a theimlir bod cyfathrebu'n wael neu'n annelwig
- **Penderfynu** – Teimlir rhwystredigaeth ynghylch penderfyniadau a ystyrir wedi'u gorfodi ar bobl hyd yn oed pan fyddant y tu hwnt i reolaeth y penderfynwyr lleol (e.e. cau banciau)
- **Ffyrdd gwahanol o ymgysylltu** – Roedd gan bobl ddyhead am ymgysylltu wyneb-i-wyneb rheolaidd: cyfarfodydd yn neuadd y dref, cylchlythyron, gwell gyhoeddusrwydd ar gyfer digwyddiadau, a gwybodaeth fwy eglur am gynlluniau a chyfrifoldebau
- **Cymryd mwy o ran** – Ceir dyhead hefyd i leisiau lleol (trigolion, busnesau) lunio penderfyniadau ar fuddsoddi, gwasanaethau a dyfodol y dref

Nododd ein hadolygiad ein hunain a'r ymgynghoriad y canlyniadau creu lleoedd canlynol ar gyfer pobl a chymuned yn Rhydaman:

- Mwy o gyfleoedd i bobl gymryd rhan yn y broses i ddatblygu'r dref
- Mwy o ddefnydd o brosesau creu lleoedd i gyflenwi trefi mwy iach
- Cydlynu polisïau/prosesau mewnol y Cyngor yn well i gefnogi datblygiad canol y dref

Roedd yr adborth a gawsom drwy'r ymgynghoriad yn cynnwys:

"Yn gyffredinol, mae pobl yn falch iawn o'n tref ac eisiau iddi ffynnu"

"Mae pobl yn dueddol o fod yn falch iawn o'r dref ac yn barod i gefnogi"

"Cynlluniau mwy gweladwy, gweithredu yn hytrach nag addewidion, annog mwy o ymgysylltu cymunedol"

"Gormod o adeiladau gwag y gellid eu hailddefnyddio ar gyfer y gymuned"

"Ychydig iawn o ymgysylltu, os o gwbl, sy'n cael ei wneud gyda phobl leol am ddyfodol Rhydaman"

Y Strategaeth

Rydym yn nodi'r blaenoriaethau ar gyfer gweithredu ar draws pob un o'r chwe egwyddor creu lleoedd. Gallwch ddarllen pob adran neu fynd i'r rheiny sydd o fwyaf o ddiddordeb i chi.

Camau gweithredu

Rydym wedi creu codau lliw ar gyfer y camau gweithredu i helpu i ystyried pwy sydd fwyaf tebygol o arwain ar y camau hyn ac felly â phwy i gysylltu os oes gennych ddiddordeb mewn rhoi pethau ar waith:

- Mae **gwyrdd** yn gamau gweithredu y gall Cyngor Sir Caerfyrddin arwain arnynt
- Mae **oren** yn gamau gweithredu y gellir eu cyflawni mewn partneriaeth ag eraill yn unig

Lleoliad

Canlyniad	Cam Gweithredu (Gweler tudalen 39 am yr Allwedd i'r lliwiau)	Blaenoriaeth
Gwella cysylltedd ledled y dref	Gwella cysylltiadau rhwng y parc, yr orsaf, Stryd y Cei, yr Arcêd a Stryd y Coleg trwy weithio ar lwybrau, arwyddion a gwaith dylunio	Canolradd
	Creu 'canllaw dylunio' syml ar gyfer datblygiadau er mwyn sicrhau y caiff rheolau sylfaenol dylunio trefol eu dilyn – ei ddarparu fel canllaw cynllunio ategol, ond hefyd ei atodi i unrhyw geisiadau grant ar gyfer adeiladau fel maen prawf sicrhau ansawdd	Canolradd
	Edrych ar welliannau i'r amgylchedd i gerddwyr wrth y Cross	Uchel
Mwy o weithredu ynghylch polisi cynllunio canol y dref yn gyntaf	Mabwysiadu ymagwedd 'canol trefi yn gyntaf' lle bynnag y bo'n bosibl. Nid yw hyn yn golygu na ddylid defnyddio lleoliadau tu allan i'r dref, dim ond eu defnyddio lle dangosir nad yw canol y dref yn ddichonol	Uchel
	Asesu'r datblygiadau newydd, gan gynnwys dyfodol yr asedau presennol sy'n eiddo i'r Cyngor o ran yr effaith y maent yn ei chael ar ganol y dref	Uchel
	Asesu'r holl ddatblygiadau newydd am eu heffaith ar ganol y dref. Lle y bydd hon yn negyddol, mae angen camau gweithredu lliniarol.	Uchel
Mesur targedau a chynnydd yn well/ gwella'r cyfathrebu amdanynt	Datblygu offeryn gwirio iechyd canol y dref gyda set glir o ganlyniadau mesuradwy ac adrodd yn eu herbyn yn flynyddol. Cynnal cyfarfod i nodi'r sefyllfa bresennol bob blwyddyn fel rhan o'r gwaith ymgysylltu ehangach. Pwysleisio llwyddiannau, cydnabod y problemau a cheisio datrysiadau a gyd-gynhyrchir	Uchel



Sarlat la Caneda



Reims

Amgylchfyd cyhoeddus

Canlyniad	Cam Gweithredu (Gweler tudalen 39 am yr Allwedd i'r lliwiau)	Blaenoriaeth
Mwy o gyfleoedd i chwarae ar y strydoedd	Edrych ar gyfleoedd i gyflwyno gweithgareddau chwarae yng nghanol y dref	Canolradd
Gwell arwyddion a chreu llwybrau diogel ar draws y dref	Datblygu arwyddion i helpu pobl i lywio'u ffordd rhwng yr orsaf drenau a chanol y dref	Uchel
	Mapio llwybrau a ddefnyddir yn rheolaidd gan gerddwyr a seiclwyr ac edrych ar welliannau i'w gwneud yn fwy diogel	Uchel
Gwella'r rheolaeth o dir y cyhoedd	Sefydlu cynllun gweithredu traws-sectorol ar gyfer rheoli cyrchfannau	Uchel
	Cynnwys treftadaeth y dref yn nhirwedd y strydoedd. Er enghraifft, mae hanes glofaol Rhydaman bron yn gwbl anweledig	Uchel
	Creu arweiniad hawdd ei ddefnyddio ar gyfer blaenau canol y dref	Uchel
	Haenen uchaf Trawsnewid Trefi a/neu gyllid llywodraeth leol wedi'i ddynodi'n benodol ar gyfer gwella blaenau mewn ardaloedd allweddol	Uchel
	Ariannu goleuadau nodwedd ar adeiladau allweddol	Uchel
	Darparu seilwaith e.e. pwyntiau pŵer er mwyn helpu i fywiogi mannau cyhoeddus yn y dref a chefnogi digwyddiadau ynddynt	Uchel
	Annog mwy o waith bywiogi mewn mannau cyhoeddus gan drydydd partïon drwy sefydlu strategaeth syml i sicrhau y caiff rhwystrau i waith gan drydydd partïon eu dileu, gan gadw rheolaeth reoleiddiol resymol	Uchel
Mwy o seilwaith gwyrdd ar draws y dref	Ychwanegu seilwaith gwyrdd i Stryd y Cei a phennu ymyraethau allweddol eraill ledled y dref trwy strategaeth seilwaith gwyrdd lefel drefol	Uchel
	Ariannu seilwaith gwyrdd trwy raglen Trawsnewid Trefi a fydd yn ariannu 100% o'r gwaith hwn. Rhoi rheoliadau ar waith i osgoi colli'r gwerth hwn trwy waith cynllunio	Uchel
Cynnal a gwella'r gofodau presennol	Archwilio cyfleoedd am berchnogaeth gymunedol ar fannau'r amgylchfyd cyhoeddus	Canolradd
	Gwella tirweddu ar Sgwâr y Farchnad ar waelod Stryd y Cei	Uchel



Cerflun dros dro yn Plymouth



Darparwyd y llun trwy garedigrwydd Robert Bray Associates

Draeniau trefol cynaliadwy amlswyddogaethol yn Llundain




Dargyfeirio pibelli i erddi glaw – seilwaith gwyrdd syml, cost isel yn Abertawe



Draenio trefol ar raddfa fach yn Portland, Oregon


Symudiad

Canlyniad	Cam Gweithredu (Gweler tudalen 39 am yr Allwedd i'r lliwiau)	Blaenoriaeth
Gwella opsiynau i bobl sy'n cerdded a beicio	Gweithio gyda Teithio Llesol i nodi cyfleoedd ar gyfer llwybrau beicio newydd	Canolradd
	Gwella mannau croesi allweddol ar gyfer y cymunedau preswyl cyfagos	Canolradd
	Hwyluso cerdded i'r dref o feysydd parcio'r adwerthwyr ar gyrion deheuol y dref	Canolradd
Gwella trafnidiaeth gyhoeddus	Gweithio gyda darparwyr trafnidiaeth gyhoeddus i wella amlder a dibynadwyedd y cynnig trafnidiaeth gyhoeddus	Uchel
	Hysbysebu opsiynau trafnidiaeth gyhoeddus yn well	Uchel
Gwella mynediad i'r rhwydwaith rheilffyrdd	Gwella croesfan y rheilffordd	Canolradd
	Explore accessibility of the railway	Canolradd
Gwella opsiynau ar gyfer danfoniadau yng nghanol y dref	Cyfyngu ar fynediad i gerbydau i'r ardaloedd i gerddwyr ar gyfer danfoniadau i amserau penodol yn gynnar yn y bore/ gyda'r nos	Uchel
	Creu lleoedd danfoniadau yn unig o fewn cyrraedd hwylus i ganol y dref ar gyfer danfoniadau ar raddfa fach gan wasanaethau cludwyr sydd angen danfon nwyddau trwy'r dydd	Uchel
Lleihau pwysau ar y gyffordd ganolog	Datblygu opsiynau llwybro amgen i leihau pwysau'r traffig trwodd wrth y Cross	Isel
	Arafu traffig trwy'r gyffordd ymhellach trwy waith dylunio - edrych ar fodel wyneb a rennir sy'n gorfodi i gerbydau arafu, gan ganiatáu ar gyfer tynnu rhwystrau i gerddwyr ymaith	Canolradd
Gwell mynediad i ganol tref Rhydaman ar gyfer teithiau arhosiad byr	Cyflwyno parcio'n ddi-dâl am 30 munud yn yr holl feysydd parcio ceir	Uchel
	Darparu lleoedd codi/gollwng aros byr iawn a phlismona eu defnydd	Isel
	Ad-drefnu lleoedd parcio ceir ar lai o safleoedd er mwyn lleihau nifer yr hap-deithiau yn y dref (gellir newid rhai safleoedd i leoedd ar gyfer pobl anabl yn unig) gan bobl yn chwilio am leoedd i barcio	Isel
	Gweithio gyda'r ysgol uwchradd i ddarparu lleoedd parcio ar gyfer y chweched dosbarth rhywle arall/lleihau er mwyn lleddfu'r pwysau ar leoedd mewn lleoliadau parcio allweddol. Er enghraifft, system drwydded sydd ond yn ddilys mewn rhai meysydd parcio (i ffwrdd o'r canol) y mae aelodau'r chweched yn gallu eu defnyddio	Canolradd


URBAN
FOUNDRY
Llinellau symud
Croesfannau
Mannau gwyrdd
Meysydd parcio cyhoeddus
Rhwystrau i Gerddwyr
Gwella'r Groesfan Reilffordd
AMMANFORD
Ammanford Park
Tennis Courts
Cricket Ground
Bandstand
Recreation Ground
Bowling Green
Shoppers World
Car Park
Carregamman Car Park / Maes Parcio Carregamman
Castle Reach
Burial Ground
Superstore
Police Station
Betws Park
Pont y Betws
STRYD MARGED
STRYD Y NEUADD / HALL STREET
FFORDD WILLIAM WALKER
© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2025. Arolwg Ordnans 100023377
© Crown Copyright and database rights 2025. Ordnance Survey 100023377

Cymysgedd o ddefnyddiau

Canlyniad	Cam Gweithredu (Gweler tudalen 39 am yr Allwedd i'r lliwiau)	Blaenoriaeth
Gwella'r cyfuniad o ddefnyddiau yng nghanol y dref	Edrych ar opsiynau trwy'r system gynllunio a gweithredu uniongyrchol i gefnogi dwysedd preswyl o amgylch y dref. Dylai gynnwys uwchben siopau a hefyd datblygiadau mewnlenwi o amgylch canol y dref. Mae'n hanfodol i'r rheiny fod yn gyfuniad o fathau a deiliadaethau	Uchel
	Edrych ar weithio mewn partneriaeth i ddatblygu canolfan gymunedol/ bobl ifanc yn y dref	Uchel
	Gweithio gyda busnesau lleol allweddol i edrych ar fecanweithiau ar gyfer cryfhau'r economi nos	Uchel
Mwy o ofodau gwag neu heb eu defnyddio'n ddigonol yn cael eu defnyddio'n weithredol	Pennu defnyddiau ar gyfer adeiladau/safleoedd allweddol gwag/nas defnyddiwyd yn ddigonol, gan gynnwys cynnal astudiaethau dichonoldeb ar gyfer safleoedd allweddol	Uchel
Mwy o fusnesau newydd yn derbyn cymorth	Cefnogi rhanddeiliaid i ddatblygu gofod ar gyfer siopau sionc a mannau 'defnydd yn y cyfamser'	Uchel
	Cysylltu busnesau newydd â busnesau sefydlog gyda'r cymorth busnes presennol (e.e. trwy fforwm busnes)	Uchel
	Edrych ar a fyddai uned ddeori busnes yn gweithio	Uchel


URBAN
FOUNDRY
Safleoedd Allweddol
AMMANFORD
Ammanford Park
Cricket Ground
Tennis Courts
Bowling Green
Bandstand
Recreation Ground
Shoppers World
Car Park
Carregamman Car Park / Maes Parcio Carregamman
Arcade
Clinic
Chapel
Tel Ex
Burial Ground
Superstore
Police Station
Betws Park
Port y Betws
MARGARET STREET
HALL STREET
WIND STREET
UNION STREET
Castle Reach
Castle House
Tower
Weir
Tank
Glanrhyd
Cemetery
Play Area
Shelter
Pool
Library
Theatre
Post
PO
TCB
PH
PC
LB
PW
ESS
Sta
Hall
Club
Chapel
Amb Sta
F Stn
El Sub Sta
SP
LC
© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2025. Arolwg Ordnans 100023377
© Crown Copyright and database rights 2025. Ordnance Survey 100023377



Mannau dros dro a gyflwynwyd yn Rhydamman yn flaenorol





Man dros dro Y Banc yng Nghaerffili



Prosiect dros dro Unit Nineteen yn Abertawe

Hunaniaeth


Canlyniad	Cam Gweithredu (Gweler tudalen 39 am yr Allwedd i'r lliwiau)	Blaenoriaeth
Mwy o ymdeimlad o falchder yn y dref	Datblygu brand clir i'r dref wedi'i wreiddio yn ei threftadaeth Gymraeg a Rhydaman fel tref borthol	Uchel
Mwy o gyfleoedd i ddathlu treftadaeth y dref	Bwrw ymlaen â threfnu gŵyl, marchnad a rhaglen ddiwylliannol i ddatblygu'r dref	Uchel
	Ailddechrau/ ail-ddychmygu'r ŵyl Twrch Trwyth yn y dref gan weithio gydag artistiaid/ perfformwyr lleol a chynnwys busnesau lleol	Uchel
	Edrych ar sut y gallai'r adwerthu 'ar gyrion y dref' i'r de integreiddio'n well trwy osod arwyddion a thraws-hyrwyddo	Canolradd
	Datblygu palet lliwiau a ffont ar gyfer dylunio arwyddion a sicrhau y cânt eu defnyddio'n gyson	Canolradd
Cryfhau'r Gymraeg drwy weithgareddau creu lleoedd	Hyrwyddo'r cyfleoedd Cymraeg presennol a defnyddio cyllid fel ysgogiad i greu strategaeth iaith Gymraeg hawdd ei gweithredu a ddyluniwyd ar gyfer yr holl bartneriaid, a chefnogi pobl i ddefnyddio'r iaith bob dydd	Uchel



Marchnad adwerthwyr iau yn Rhydaman

Pobl a chymuned

Canlyniad	Cam Gweithredu (Gweler tudalen 39 am yr Allwedd i'r lliwiau)	Blaenoriaeth
Mwy o gyfleoedd i bobl gymryd rhan yn y broses i ddatblygu'r dref	Ailffocysu'r Tasgluoedd. Sicrhau ei fod yn canolbwyntio ar yrru newid (rhagweithiol yn hytrach nag adweithiol). Datblygu diwylliant o ddull 'tîm', sydd angen dod gyda dealltwriaeth o'r cyfyngiadau y mae awdurdodau lleol yn gweithredu oddi tanynt	Uchel
	Creu fforwm o reolwyr lleol ar gyfer yr adwerthwyr i'r de i ystyried sut y gallant gefnogi canol y dref ymhellach er mwyn bod yn gyflenwol yn hytrach na chystadleuol	Uchel
	Creu rhaglen o ddigwyddiadau ymgysylltu cymunedol rheolaidd mewn perthynas â datblygu'r dref	Uchel
	Helpu fforymau i ddatblygu fel rhaglenni sy'n cyfeirio at gamau gweithredu	Canolradd
	Adnabod a cheisio dileu rhwystrau i fentrau lleol (gan gadw rheolaethau rheoleiddiol rhesymol) e.e. annog busnesau i osod byrddau a chadeiriau ar y stryd, digwyddiadau a gweithgareddau, mentrau celfyddydol a thebyg	Canolradd
	Datblygu set glir o ganlyniadau mesuradwy ac adrodd yn eu herbyn yn flynyddol. Cynnal cyfarfod i nodi'r sefyllfa bresennol bob blwyddyn fel rhan o'r gwaith ymgysylltu ehangach. Pwysleisio llwyddiannau, cydnabod y problemau a cheisio datrysiadau a gyd-gynhyrchir	Uchel
Mwy o ddefnydd o brosesau creu lleoedd i gyflenwi trefi mwy iach	Dod â gofal iechyd yn agosach i bobl trwy gynnwys cwestiwn 'canol trefi yn gyntaf' yn yr holl benderfyniadau mewn perthynas â chyfleusterau gofal iechyd	Uchel
Cydlynu polisïau/prosesau mewnol y Cyngor yn well i gefnogi datblygiad canol y dref	Archwilio sut y gellir gwella trefniadau caffael i gryfhau busnesau yng nghanol y dref (ac yn fwy cyffredinol busnesau yn Sir Gaerfyrddin)	Uchel
	Cynnwys gwerth cymdeithasol yn yr holl brosesau caffael	Uchel



Gweithdy ymgynghori'r Tasglu ar greu lleoedd



Darparwyd y llun trwy garedigrwydd Mess up the Mess

Newid ar waith

Caiff y gwaith o greu lleoedd ei gyflawni gan bartneriaeth. Mae'n amlwg bod gan Gyngor Sir Caerfyrddin a Chyngor Tref Rhydaman rôl bwysig ochr yn ochr â chyrff sector cyhoeddus eraill. Ond y partneriaethau ehangach sy'n cynnwys trigolion, y gymuned a'r sector gwirfoddol, a'r sector preifat a fydd yn helpu i gyflawni'r newid a nodwyd yn y strategaeth hon.

Newid ar waith yn Rhydaman

Mae gan Rydaman Dasglu eisoes. Mae'r grŵp hwn yn dwyn ynghyd bobl o bob rhan o'r dref, a byddant yn gyfrifol am yrru camau allweddol o fewn y strategaeth. Ond gall unrhyw un gymryd rhan yn y broses. Os oes gennych syniad am sut i fwrw ymlaen ag un o'r camau gweithredu a nodir yn y strategaeth hon, cysylltwch â Chyngor Sir Caerfyrddin i drafod camau cyntaf sut i symud ymlaen.

Bydd y Tasglu'n adolygu mesurau allweddol er mwyn deall y cynnydd a wneir ym mhob maes. Darperir fframwaith manwl yn yr atodiad technegol, ond bydd cynnydd yn cael ei farnu ar sail y meysydd canlynol

Thema Creu Lleoedd	Dangosydd	Pwyntiau Allweddol
Lleoliad	Nifer yr ymwelwyr Lefel y gweithgarwch economaidd Lefel diweithdra	Bydd hyn yn ein helpu i ddeall sut mae pobl yn defnyddio'r dref a beth yw cryfder sylfaenol y dref
Amgylchfyd Cyhoeddus	A yw'r amgylchedd lleol yn ddymunol ac yn derbyn gofal da (Arolwg Preswylwyr Sir Gâr)	Bydd hyn yn rhoi inni syniad cyffredinol o'r canfyddiadau am dir y cyhoeddviewed
Symudiad	Bodlonrwydd â thrafnidiaeth (arolwg trigolion Sir Gaerfyrddin) Metrau o lonydd beicio a grëwyd neu a wellhawyd	Caiff trafnidiaeth gyhoeddus ei rheoli y tu allan i awdurdodau lleol. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw'r cynnydd yn gwella
Defnyddiau cymysg	Nifer yr unedau gwag Nifer yr adeiladau a ailddefnyddir	Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw adeiladau allweddol yn cael eu defnyddio yng nghanol y dref ac a oes galw mawr neu fel arall am leoedd sydd ar gael yn y dref
Hunaniaeth	Cynnydd yn nifer yr ymweliadau â'r dudalen we Cynnydd yn nifer yr ymwelwyr â chyrchfan penodol Ydych chi'n hoffi byw yn Sir Gaerfyrddin? Canran y siaradwyr Cymraeg	Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw'r camau gweithredu yn cefnogi trigolion lleol, ymwelwyr a'r Gymraeg
Pobl a chymuned	A yw'r Cyngor yn rhoi cyfleoedd i bobl gymryd rhan mewn penderfyniadau (arolwg trigolion Sir Gaerfyrddin)	Bydd hyn yn rhoi inni ddealltwriaeth o'r canfyddiad cyffredinol o gynnig y Cyngor

I fod yn rhan o'r gwaith o gyflawni elfennau o'r cynllun, cysylltwch â ni i drafod sut y gallwch gymryd rhan yn Trefi@sirgar.gov.uk

URBAN

FOUNDRY